**Dyddiad**: dydd Iau 11 Tachwedd

**Amser**: 2pm – 3.30pm

**Lleoliad**: Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Teitl:** COFRESTR O FUDDIANNAU'R AELODAU: ADRODDIAD DIWEDDARU AR GYFER AELODAU'R PWYLLGOR AR SAFONAU YMDDYGIAD

***Diben***

1. Amlinellu'r sefyllfa ddiweddaraf am y gofrestr.

***Camau gweithredu***

2. Dim; er gwybodaeth.

***Y sefyllfa ddiweddaraf***

3. Ers cyhoeddi'r adroddiad chwarterol cyntaf ar Gofrestr Buddiannau'r Aelodau, mae nifer o aelodau wedi mynd ati i ddiwygio'u manylion, naill ai yng ngoleuni'r hyn a gofrestrwyd gan eraill neu mewn perthynas â datganiadau newydd. Er i'r wasg ddangos cryn dipyn o ddiddordeb ar y dechrau, ychydig iawn o ymholiadau yngln â'r Gofrestr a dderbyniwyd gennym ers ei chyhoeddi ym mis Awst.

***Gwersi a ddysgwyd***

4. Mae'n amlwg bod llawer o'r Aelodau yn cofrestru amrywiaeth o faterion nad oes yn rhaid iddynt eu cofrestru o dan Reol Sefydlog 4. Mae'r "Canllaw i Aelodau'r Cynulliad ar Gofrestru a Datgan Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill" yn datgan y dylid cofrestru rhoddion sy'n werth mwy na £125 a lletygarwch sy'n werth mwy na 0.5% o gyflog Aelod (£170). Mae'r Swyddfa Gyflwyno wedi ceisio rhoi cyngor i'r Aelodau a'u perswadio i beidio â chofrestru mân faterion, ond er hyn mae rhai'n dymuno cofrestru cymaint â phosibl, gan gynnwys mân roddion. Eu dewis hwy yw hynny wrth reswm, ac mae rhai Aelodau yn amlwg yn pryderu y gallent dramgwyddo'r system wrth beidio â chofrestru rhywbeth y gellid ystyried yn rhesymol ei fod yn dylanwadu ar eu gweithredoedd yn y Cynulliad. Efallai bod yr agwedd orofalus hon wedi deillio o hynny. Ond gallai'r datganiadau dianghenraid arwain at orlwytho'r Gofrestr gyda mân fanylion, yn arbennig yn y categori rhoddion a lletygarwch, ac at gymariaethau anffafriol â'r

Aelodau hynny sydd wedi cofrestru dim ond lleiafswm y manylion angenrheidiol.

5. Mae’r Dirprwy Lywydd hefyd wedi codi’r mater o anghysondebau yn y gofrestr mewn perthynas â chostau etholiad. Mae’r canllaw o dan y pennawd ‘Nawdd Ariannol’ – categori 6, yn datgan y dylid cofrestru costau etholiad os, *"fel ymgeisydd ar gyfer ethol i’r Cynulliad, lle, hyd y gyr yr Aelod, mae’r nawdd mewn unrhyw achos yn fwy na 25 y cant o gostau etholiad yr ymgeisydd*".

6. Mae’r Swyddfa Gyflwyno yn adolygu lefel a math y datganiadau ond, yn y pen draw, mater i’r Aelod ei hun benderfynu arno yw hyn. Er mwyn hyrwyddo cymaint o gysondeb â phosibl yr ydym wedi atgoffa’r Aelodau o brif bwyntiau’r canllaw. Hefyd, lle bynnag y bo modd, yr ydym yn argymell y dylai newidiadau i’r gofrestr yn y dyfodol adlewyrchu’r pynciau sy’n rhaid eu cofrestru yn unig.

***Cyhoeddi’r Gofrestr***

7. Cytunwyd y dylid cyhoeddi Cofrestr Buddiannau’r Aelodau yn chwarterol gan gynnwys cyhoeddiad blynyddol. Gan fod yr adroddiad chwarterol cyntaf wedi’i gyhoeddi ym mis Awst, mae’n dilyn y dylai’r tri chyhoeddiad nesaf fod ym mis Tachwedd, mis Ionawr a mis Ebrill.

8. Yn dilyn yr arfer a fabwysiadwyd ar gyfer y chwarter cyntaf, yr ydym wedi anfon Adroddiad drafft ar Gofrestr Buddiannau’r Aelodau i’r holl Aelodau, er mwyn iddynt roi eu sylwadau arno, gyda’r bwriad o gyhoeddi’r ddogfen erbyn diwedd y mis.

**Y Swyddfa Gyflwyno**

**Tachwedd 1999**